

MAY 2014

GLASTIR MONITORING & EVALUATION PROGRAMME FIRST YEAR ANNUAL REPORT

Prepared by CEH on behalf of the Glastir Monitoring & Evaluation Programme Team



**Canolfan
Ecoleg a Hydroleg**
CYNGOR YMCHWIL YR AMGYLCHEDD NATURIOL



**Centre for
Ecology & Hydrology**
NATURAL ENVIRONMENT RESEARCH COUNCIL



How to cite this report:

Full version: Emmett, B.E., Abdalla, M., Anthony, S., Astbury, S., August, T., Barrett, G., Biggs, J., Botham, M., Bradley, D., Brown, M., Carter, H., Chadwick, D., Cigna, F., Cooper, D., Cooper, J., Cosby, B.J., Creer, S Cross, P., Edwards, F., Edwards, M., Evans, C., Ewald, N., Fitton, A., Garbutt, A., Grebby, S., Greene, S., Halfpenney, I., Hall, J., Harrison, S., Harrower, C., Henrys, P., Hobson, R., Hughes, S., Isaac, N., Jackson, B., Jarvis, S., Jones, D., Keith, A., Kelly, M., Korenko, J., Lallias, D., Leaver, D., Lebron, I., Malcolm, H., Maskell, L., McDonald, J., Moxley, J., Norton, L., O'Hare, M., Owen, A., Pereira, M., Peyton, J., Powney, G., Pywell, R., Rawlins, B., Robinson, D.A., Rorke, S., Rowland, C., Roy, D., Scarlett, P., Scholefield, P., Scott, A., Scott, L., Scott, R., Siriwardena, G., Smart, S., Smith, P., Swetnam, R., Taylor, R., Tordoff, G., Van Breda, J., Vincent, H., Wagner, M., Waters, E., Watkins, J., White, J., Williams, B., Wood, C. and Wright, S. (2014) Glastir Monitoring & Evaluation Programme. First Year Annual Report to Welsh Government (Contract reference: C147/2010/11). NERC/Centre for Ecology & Hydrology (CEH Project: NEC04780), pp.442

Short version: Emmett B.E. and the GMEP team (2014) Glastir Monitoring & Evaluation Programme. First Year Annual Report to Welsh Government (Contract reference: C147/2010/11). NERC/Centre for Ecology & Hydrology (CEH Project: NEC04780), pp. 442

Further copies of this report are available from: GMEP Office, Centre for Ecology & Hydrology, Environment Centre Wales, Deiniol Road, Bangor, Gwynedd, LL57 2UW.

Special Thanks to:

Aspey, N., Bamford, R., Carter, D., Clarke, S., Davies, C., Ellison, M., Everett, C., Everingham, E., Fells, A., Fitos, E., Green, D., Harvey, A., Haycock, A., Haycock, B., Jackson, E., Jones, K., Kelsall, J., Knight, T., Koblizek, E., Meilleur, E., Nuttall, P., Pedashenko, H., Ryan, F., Sazer, D., Seaton, R., Small, J., Smith, A., Tordoff, G., Vasilev, K., Vaughan, D., Wallace, H., Warwick, A. and Winder, J.



Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwyno Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir a'i thîm

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir (GMEP) newydd gynhwysfawr i fonitro effeithiau cynllun Glastir, ei chynllun rheoli tir newydd, ac i gyfrannu, os bydd modd, at fonitro cynnydd tuag at gyrraedd nifer o dargedau cenedlaethol a rhyngwladol ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd. Mae hyn yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sefydlu rhaglen fonitro i gyd-redeg â lansio cynllun Glastir. Mae'n gam mawr ymlaen o raglenni monitro blaenorol sydd wedi cyflwyno eu hadroddiadau wedi i'r cynlluniau ddod i ben. Bydd y prosiect yn sicrhau cydymffurfiaeth hefyd â'r gofynion ymestynnol yn Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin (CMEF) y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) i Gymru yn un o'r pedwar maes allweddol (a elwir yn Echelau) sef "Ein Hamgylchedd a Chefн Gwlad". Bydd y canfyddiadau cynnar o GMEP yn darparu adborth buan ar gyfer negodiadau ynghylch cam nesaf y CDG. Bydd y data, y modelau a'r offer a gaiff eu casglu a'u datblygu gan GMEP yn cyfrannu hefyd at gynllunio adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd gydgysylltiedig yn y dyfodol er mwyn datblygu economi werdd a gwreddu dyheadau Bil yr Amgylchedd. Bydd y rhaglen ddwy flynedd bresennol yn cael ei hymestyn am ddwy flynedd ychwanegol os cwbllheir tasgau'r ddwy flynedd gyntaf yn llwyddiannus.

Mae tîm GMEP yn cynnwys amrywiaeth o sefydliadau sydd ag arbenigaethau gwahanol ar gyfer gweithgareddau, amcanion a chanlyniadau amrywiol y cynllun. Mae'r rhaglen yn cael ei harwain gan Ganolfan Ecoleg a Hydroleg Bangor sy'n cael ei noddi gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, corff ymchwil cyhoeddus annibynnol. Aelodau consortiw y prosiect yw ADAS, APEM, Prifysgol Bangor, Biomathematics and Statistics Scotland, Bowburn Consultants, Arolwg Daearregol Prydain, Ymddiriedolaeth Adareg Prydain, Butterfly Conservation, ECORYS, Edwards Consultants, Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw, Prifysgol St Andrews, Prifysgol Swydd Stafford, Prifysgol Aberdeen, Prifysgol Southampton, a Phrifysgol Victoria yn Wellington, Seland Newydd.

2. Dull gweithredu GMEP

Prif elfen y rhaglen yw arolwg blynnyddol treigl a gynhelir ledled Cymru gan ddefnyddio dull ar lefel yr ecosystem. Ymysg pethau eraill, mae'n mesur nifer o agweddau ar ansawdd pridd a dŵr, nodweddion tirwedd, amrywiaeth planhigion a dŵr croyw, a chyflwr nodweddion hanesyddol, ac yn cynnal dau arolwg o bryfed peillio a phedwar o adar, y cwbl wedi'i fapio ar sail mesurau ymyrryd Glastir a'r pum canlyniad lefel uchel sydd wedi'u rhagnodi gan Lywodraeth Cymru. Rhan ganolog o weithgareddau'r rhaglen ar ddadansoddi data a thystiolaeth yw ystyried data o'r gorffennol sy'n dangos effeithiau cynlluniau amaeth-amgylchedd a thueddiadau parhaus. Rhai enghreifftiau o ddata a thystiolaeth o gylch ehangach sydd wedi'u defnyddio yw: data hanesyddol sy'n cael eu dal gan y Ganolfan Cofnodion Biolegol, Ymddiriedolaeth Adareg Prydain ac Arolwg Cefn Gwlad y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg. Bydd y defnydd o dystiolaeth a data o gylch ehangach yn hyrwyddo'r gallu i werthuso a hefyd yn darparu cyd-destun hanesyddol hirdymor. Cynhelir rhagor o weithdai gydag amrywiaeth o sefydliadau monitro arbenigol a Cyfoeth Naturiol Cymru ym mlwyddyn 2 i sicrhau bod yr holl dystiolaeth a data a gasglwyd drwy raglenni monitro cyfredol a blaenorol mewn cylchoedd ehangach yn cael eu defnyddio.

Hyd y gwyddom, hon fydd y rhaglen fwyaf a manylaf ar gyfer monitro a gwerthuso ecosystemau yn holl Aelod-wladwriaethau ac Awdurdodau Rheoli'r Undeb Ewropeaidd. Ymhliith y nifer mawr o elfennau newydd y mae: dull



monitro ar lefel yr ecosystem fel y gellir dadansoddi effeithiau gwrthbwys o a chyd-fuddion; rhaglen monitro dreigl sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r cynllun i roi adborth buan; cyfraniad o bwys drwy fodelu; cynnwys dadansoddiadau cymdeithasol ac economaidd; cymhwys o dulliau newydd, e.e. techneg foleciwlaid i fesur bioamrywiaeth mewn pridd, data lloeren i fonitro cyflwr mawndiroedd a thyrau fflwcs symudol i fesur nwyon tŷ gwydr. Bydd pob un o'r rhain yn helpu i hybu effeithlonrwydd a gwella ansawdd data, a sicrhau bod pob math o effeithiau o gynllun Glastir ar dirwedd Cymru, ffermwyr a chymdeithas ehangach yn cael eu cofnodi.


Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio prif gyflawniadau tîm GMEP ym mlwyddyn ei sefydlu rhwng Medi 2012 ac Awst 2013, ac mae prif ganlyniadau'r flwyddyn gyntaf wedi'u dangos isod. Mae cyflwyniad mwy helaeth i waith GMEP ym Mhennod 1.

3. Canlyniadau Blwyddyn 1 a sylwadau

3.1 Gwaith modelu i ymchwilio i ganlyniadau ar gyfer y dyfodol o gynllun Glastir

Canlyniadau'r flwyddyn gyntaf:

- Pennu paramedrau ar gyfer pedwar model sy'n ymdrin â'r effeithiau o fesurau ymyrryd y cynllun ar lygredd gwasgaredig, cysylltedd cynefinoedd, dal a storio carbon, amrywiaeth planhigion ac erydu a'r effeithiau gwrthbwys o'r synergeddau ar eu cyfer.
 - Ymchwiliwyd i chwe mesur ymyrryd gwrthgyferbyniol sy'n cynnwys ymyriadau 'eang a bas' a rhai 'cyfyng a dwfn'. Y rhain oedd: tir pori parhaol heb fewnbynnau (AWE15), plannu corridor ar lan nant (AWE9b), rheoli pori ar dir agored (AWE41a), ymestyn ymyl coetir (AWE 24), rheoli rhedyn (AWE 44) a chadw sofl dros y gaeaf (AWE 28).
 - Edrychwyd ar dri senario lle'r oedd derbyniad isel, canolig ac uchel i'r ymyriadau a chymerwyd bod y ffermydd a oedd yn cymryd rhan yn gweithredu'r opsiynau i'r graddau mwyaf posibl h.y. ar yr holl dir perthnasol ar y fferm. Dylid nodi bod hyn yn debygol o roi goramcangyfrif arwyddocaol o'r canlyniadau. Nid oedd data ar gael ar y pryd am arwynebedd y tir a oedd wedi'i gynnwys mewn cytundebau. Hefyd, ni aseswyd maint yr allyriadau y gellid bod wedi'u dadleoli i wledydd eraill.
- Rhai o'r canlyniadau yw:
 - At ei gilydd, roedd rhagnodiadau unigol o dan Glastir sy'n arwain at ostyngiad ym mewnbynnau'r fferm a niferoedd cyffredinol y da byw mewn cynefinoedd ar ffermydd (h.y. AWE 9b, AWE 28, AWE 41a, AWE 24) yn sicrhau gostyngiadau cenedlaethol bach (<1%) mewn allyriadau o lygryddion o etwroffeiddio a llygryddion gorfodi hinsawdd.
 - Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â chanlyniadau ar lefel safleoedd sy'n dangos bod modd cyrraedd 80%. Gyda'i gilydd, mae'r lefelau cyfranogi disgwyliedig yng nghynllun Glastir ac arwynebedd y tir addas sydd ar gael ar gyfer ymyriadau yn cyfngu canlyniadau ar raddfa genedlaethol. Er enghraifft, roedd maint y gostyngiad lleol mewn llygryddion sawl gwaith yn fwy mewn Dalgylchoedd â Blaenoriaeth lle y mae arwynebedd eang o dir perthnasol sydd wedi'u targedu ar gyfer ymaelodi â'r cynllun. Gan nad yw'r ffigurau ar gyfer y dalgylchoedd hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, mae'r effaith gyffredinol ar ganlyniadau cenedlaethol yn fach.
 - Cafwyd gostyngiadau cenedlaethol o ran trwytholchi nitradau ac allyriadau o ocsid nitrus a methan o 5 i 10% hefyd drwy atal gwrteithiau nitrogen a lleihau'r gyfradd



Modelu ADAS WDP-EMF o'r gostyngiad yng nghanran allyriadau nitradau o dan y senario ar gyfer cyfranogi 'Uchel' yn y cynllun ar gyfer effaith 'Tir Pori Parhaol heb Fewnbynnau'

stocio ar yr arwynebedd mwy o laswelltir wedi'i wella (AW15).

- Roedd y canlyniad ar gyfer ansawdd dŵr o'r ddau fodel a oedd yn modelu llygredd gwasgaredig wedi rhoi canfyddiadau tebyg ac roedd hyn yn ategu ein hyder yn y canlyniadau.
- Gall y newid yn yr ôl troed carbon cyffredinol (sy'n cynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr corfforedig) ar gyfer ffermydd penodol fod yn gymaint â 24%.
- Roedd y ddau opsiwn ar gyfer coetir (ymestyn ymwl coetir a phlannu corridor ar lan nant) ill dau'n cynyddu'r tir a oedd ar gael i rywogaethau ffocol llydanddail 'generig' rhwng 3 a 12%, yn lleihau'r potensial ar gyfer llifogydd oddi ar dir rhwng 1 a 9%, yn cynyddu'r gyfradd storio genedlaethol ar gyfer carbon 0.4%, ac yn lleihau maint y pridd a erydir a'r ffosfforws a gyflenwir o gymaint â 15% am fod llai o gysylltedd rhwng tir sy'n agored i erydu ac afonydd a llynnoedd.
- Cafwyd rhagamcan o newidiadau cadarnhaol yn addasrwydd cynefinoedd ar gyfer 75% o'r 21 o rywogaethau planhigion a fodelwyd a chynnydd sylweddol tuag at gyrraedd sgorau arfaethedig ar gyfer addasrwydd cynefinoedd o fewn 10-23 blynedd ar ôl ymgymryd â'r opsiynau.

Mae'r defnydd hwn o fodelau'n elfen newydd iawn yn GMEP. Maent yn werthfawr o ran ymchwilio i'r newidiadau y gallwn eu disgyl o ymyriadau Glastir ar sail ein gwybodaeth bresennol, a'r cyfnodau ar gyfer y newidiadau hynny, oherwydd gellir cael oedi sylweddol ar lawr gwlad. Defnyddir modelau hefyd i asesu newidiadau anodd eu mesur fel allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac i gynyddu graddfa neu ddehongli canfyddiadau o arolygon maes fel rhai ar gyfer ansawdd dŵr o fewn y dirwedd/dalgylch ehangach. Yr hyn sy'n hollbwysig i sicrhau dull trwyadl wyddonol o ymchwilio yw bod y modelau hefyd yn rhoi fframwaith damcaniaethol wedi'i seilio ar y ddealltwriaeth wyddonol orau sydd ar gael er mwyn rhoi prawf ar ddata o'r arolwg maes. Yn fyr, roedd y gwaith modelu cychwynnol ar senarios yn dangos:

- Y buddion cymharol fach o rai ymyriadau o'u hystyried ar raddfa genedlaethol, a hynny'n gwrthgyferbynny â buddion mawr ar lefel y safleoedd.
- Bod lleoliad yr ymyriadau yn y dirwedd yn hollbwysig.
- Mae'r allbynnau o'r modelau hyn hefyd yn dangos y cydfuddion dichonol o ymyriadau fel plannu coed os byddant wedi'u lleoli'n addas ar gyfer bioamrywiaeth, ansawdd dŵr a charbon.
- Dylid nodi bod y canlyniadau o natur hirdymor, yn enwedig ar gyfer bioamrywiaeth. Mae hyn yn awgrymu bod angen posibl am ymrwymiad hirdymor i ymyriadau i wireddu'r holl ganlyniadau.
- Y gwerth posibl mewn modelau ar gyfer diwallu amrywiaeth o anghenion o ran cofnodi a datblygu polisi, yn amrywio o'r rhestr nwyon tŷ gwydr i gynllunio gofodol, yn ogystal â Glastir.



Yn olaf, dylid nodi bod canlyniadau'r modelau'n dibynnu ar nifer o ragdybiaethau yngylch ymgymryd ag ymyriadau a'u gweithredu. Rhagwelir y bydd y canlyniadau a geir yn rhoi goramcangyfrif mawr o'r effaith lle y mae rhwystrau rhag gweithredu opsiwn penodol, e.e. colli cynhyrchiant o ganlyniad i atal gwrtieithio neu droi tir pori yn goetir. Drwy ddatblygu ac adeiladu'r modelau tra chymhleth hyn, bydd modd cynnal efelychiadau pellach i ymchwilio i'r potensial mewn ymyriadau newydd ar gyfer rhagleni yn y dyfodol gan gynnwys y data o'n Harolwg Arferion Ffermydd a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth i ffermwyr am y ffordd orau o weithredu ymyriadau ar

lawr gwlad a gwybodaeth fwy manwl am gytundebau gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynir y canlyniadau ym mhenodau 2 a 5.

3.2 Yr arolwg maes

Canlyniadau'r flwyddyn gyntaf:

- Dylunio arolwg cenedlaethol hyblyg ar sail ystadegol gadarn, wedi'i seilio ar raglen dreigl ac uned samplu a ddewiswyd fel ei bod yn cynnwys yr Elfen Cymru Ehangach (WWC) a ddefnyddir i amcangyfrif llinellau sylfaen, tueddiadau cenedlaethol ac ar gyfer adroddiadau cenedlaethol ar gynllun Glastir, ac Elfen wedi'i Thargeddu (TC), sydd â chysylltiad penodol â'r meysydd a nodau â blaenoriaeth yng nghynllun Glastir.
- Cwblhawyd yr arolwg yn llwyddiannus yn y flwyddyn gyntaf. Archwiliwyd 60 o sgwariau 1km ar gyfer amrywiaeth eang o briodweddau ecosystem gan gynnwys adar a phryfed peillio, priddoedd a rhagnentydd, nodweddion hanesyddol a chyflwr llwybrau troed, gwrychoedd a choetiroedd. Rhai enghreiftiau o raddfa'r arolwg yw:
 - 1726 o leiniau botanegol wedi'u harchwilio.
 - 1500 o samplau pridd wedi'u codi o 300 o leiniau i gyd-fynd ag arolwg botanegol parhaol sy'n defnyddio dulliau addas ar gyfer dadansoddi ffisegol, microbaidd, cemegol, carbon ac infertebrata.
 - 2043 o nodweddion pwynt wedi'u pennu a'u hasesu.
 - 4 arolwg ar wahân o adar (Ebrill – Gorffennaf).
 - 2 arolwg ar wahân drwy gerdded trawsdoriad 120km o hyd i gyfrif rhywogaethau o loynnod byw, grwpiau o wenyn a phryfed hofran ynghyd ag archwiliadau wedi'u hamseru o fewn 9000m².
 - 790 km o nodweddion llinol (gwrychoedd, glannau nentydd etc).
 - Yr arolwg cyntaf o'i fath i fonitro'r canlynol yr un pryd: infertebrata dŵr croyw, diatomau (mewn nentydd yn unig), macroffytiau, cynefinoedd ffisegol, cyfansoddiau cemegol dŵr, mewn pyllau a nentydd.
 - 47 o nodweddion hanesyddol i asesu eu cyflwr.
 - 960 o luniau tirwedd wedi'u tynnu.
- Roedd perchnogion tir wedi rhoi caniatâd i fynd ar 82% o'r arwynebedd tir cyfan (daliadau sydd o fewn y cynllun a daliadau eraill) o fewn y 60 sgwâr 1km. Ym mlynnyddoedd 2-4 bydd 90 o sgwariau'n cael eu harchwilio bob blwyddyn er mwyn cael arwynebedd samplu cyfan o 330km². Erbyn blwyddyn 4, y rhaniad rhwng daliadau sydd o fewn y cynllun a daliadau eraill o fewn yr arwynebedd samplu hwn fydd tua 50 / 50 a disgwylir y bydd tua 4500 o ffermydd wedi ymaelodi â chynllun Glastir. Bydd hyn yn sicrhau bod sail wrthffeithiol gadarn i werthuso effaith y cynllun.
- Cafodd 13 o syrfewyr maes eu reciwtio a'u hyfforddi a datblygwyd meddalwedd bwrpasol ar gyfer arolygon maes.
- Darparwyd rheolaeth ar ansawdd gan syrfewyr annibynnol a groeswiriodd 12% o holl sgwariau'r arolwg.
- Roedd syrfewyr wedi casglu data drwy ddefnyddio llechen ddurol a oedd yn mewnforio, yn trosglwyddo, ac yn cwblhau data'r arolwg yn awtomatig gan greu copïau wrth gefn.
- Rhoddyd mesurau bioddiogelwch trwyndl ar waith i ddiogelu rhag clefydau planhigion ac anifeiliaid. Holwyd ffermwyr hefyd i weld a oeddent yn gwybod am unrhyw glefydau mewn planhigion neu goed ac nid oedd y syrfewyr yn mynd ar dir a oedd wedi'i heintio.

Mae'r arolwg maes yn rhan ganolog o raglen GMEP. Y nod yw darparu'r brif sylfaen dystiolaeth ar gyfer newid sy'n digwydd yng nghefn gwlad (Elfen Cymru Ehangach) y gellir ei defnyddio i werthuso effaith ymyriadau o dan gynllun Glastir drwy Elfen wedi'i Thargedu (TC). Dewisir ardaloedd samplu'r Elfen wedi'i Thargedu ar sail y strwythur pwyntiau ar gyfer Glastir Uwch, felly maent yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer canlyniadau Glastir. Drwy ddefnyddio'r dull hwn, ynghyd â dull integredig o gasglu data wedi'i seilio ar yr ecosystem, gall yr arolwg newid dros amser yn ôl y newid ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn ystod 4 blynedd cyntaf y rhaglen. Dewiswyd uned samplu gyffredin o 1km x 1km ar gyfer y ddwy elfen er mwyn cael uned samplu ymarferol a fyddai'n rhoi'r gallu i werthuso canlyniadau rhwng lefel y rhywogaeth a lefel y dirwedd. Nid ydym wedi defnyddio dull sy'n paru ffermydd ag unedau oherwydd y cyfyngiadau a fyddai'n codi, gan gynnwys tra-dyblygu a bias. Archwili'r sgwariau 1km ar sail rhaglen dreigl ac ailymwelir â nhw bob 4 blynedd. Mae nifer o fanteision ynglŷn â hyn: (i) defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon, (ii) canfod amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn, (iii) darparu data yn gynnar er mwyn profi a phennu paramedrau modelau fel bod modd darparu adborth buan i Lywodraeth Cymru, a (iv) sicrhau bod effeithiau gwrthbwys a chyd-fuddion yn cael eu cofnodi gan na fyddai hynny'n digwydd pe na byddai arolygon ar wahân e.e. o adar, planhigion a phridd, yn cael eu cynnal yn yr un lle. (Canlyniadau ym mhennod 3)



3.3 Tuuediadau parhaus o ran bioamrywiaeth, datblygu dangosydd ar gyfer Tir Ffermio sydd o Werth Mawr i Natur a chipio data o'r tu allan i raglen GMEP

Canlyniadau'r flwyddyn gyntaf:


- Drwy ddadansoddi data o gofnodion biologol o rhywogaethau a gasglwyd yn ôl y cyfle gan y Ganolfan Cofnodion Biologol, cafwyd bod 10 o blith 18 o grwpiau tacsonomig wedi dirywio o 1970 ymlaen a bod yr 8 grŵp tacsonomig sy'n weddill wedi cynyddu. Mae'r ffigurau ar gyfer rhywogaethau cyffredin yn well na'r rheini ar gyfer rhywogaethau prin o ran y newid yn y tebygolrwydd o arsylwi ar rhywogaeth rhwng 1990 a 2000. Mae dadansoddi o'r math hwn yn darparu data ar gyfer adrodd ar nifer o dargedau cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer bioamrywiaeth, ond yr unig ddata a gesglir yw'r rheini lle y mae cofnodi gan wifoddolwyr yn cynnwys sampl ddigon manwl. Aseswyd is-set ddethol o rhywogaethau â blaenoriaeth lle'r oedd digon o ddata ar gael, a'r rheini wedi'u rhestru o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Roedd hyn yn cynnwys rhywogaethau y credwyd eu bod o bwysigrwydd rhyngwladol i gadwraeth, h.y. wedi'u rhestru'n rhywogaethau o dan fygithiad ar Restr Goch Fyd-eang IUCN (IUCN 2013), ar fwy na 50% o Restrau Coch rhanbarthol yr UE neu ar restrau dibynadwy eraill. Roedd rhywogaethau wedi'u cynnwys os oedd Cymru'n cynnwys mwy na 25% o'i phoblogaeth yn yr UE neu drwy'r byd a bod eu poblogaeth wedi dirywio 25% neu fwy yn y 25 mlynedd diwethaf. Hefyd roedd rhywogaethau sydd wedi dirywio o fwy na 50% yng Nghymru yn y 25 mlynedd diwethaf wedi'u cynnwys. Yn olaf, roedd rhywogaethau wedi'u cynnwys os oedd amgylchiadau eithriadol yn eu bygwth, e.e. bod eu cwmpas yn gyfyngedig iawn, yn ôl gwybodaeth a gafwyd gan arbenigwyr tacsonomig.

- Cwblhau'r fersiwn gyntaf o Ddangosydd Rhestr Gwylio ar gyfer tueddiadau mewn rhywogaethau yng Nghymru.
- Cafwyd nifer o gyfarfodydd â rhanddeiliaid i drafod y cysyniad o Dir Ffermio sydd o Werth Mawr i Natur a sut y gallem ddatblygu dangosydd yn Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir. O ganlyniad i hyn, cafwyd nifer o benderfyniadau ar gwmpas y gwaith a thermau a chynigion ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Cynullwyd gweithgor bach a oedd yn cynnwys CEH, BTO, RSPB a CNC a chytunwyd ar y camau nesaf, gan gynnwys coladu setiau data a chynnal profion ar safleoedd adnabyddus, a chwblau dadansoddiad wedyn i ymchwilio i gyd-ddigwyddiad gwasanaethau ecosystemau eraill a chyfalaf naturiol.
- Cychwyn gwaith i allosod data o'r sgwariau 1km gan ddefnyddio data BRC a dulliau synhwyro o bell.
- Mae CEH wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru i drwyddedu a chaffael nifer o'r > 50 o setiau data sylfaenol presennol gan wahanol sefydliadau a chyrff llywodraeth gan gynnwys CNC, CCGC, Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Arolwg Ordnans, NSRI, Cadw, Defra, Intermap ac eraill. Gellir disgrifio'r data hyn o dan yr 8 pennawd canlynol: Cyd-destunol; Cynefinoedd; Priddoedd; Ardaloedd Dynodedig; Hydroleg; Hanesyddol; Daliadau Fferm; Glastir a Chynlluniau Blaenorol. Mae'r data hyn yn rhoi mwy o wybodaeth am y cyd-destun ar gyfer dadansoddi yn y dyfodol ac, o'u hychwanegu at y data sydd gan dîm GMEP (e.e. Arolwg Cefn Gwlad ac Arolwg BTO o Adar Nythu), maent yn darparu tystiolaeth ychwanegol o newid parhaol. Un elfen bwysig yn y gwaith ym Mlwyddyn 2 fydd cwrdd â grwpiau cadwraeth arbenigol i ddod o hyd i ddata ychwanegol ar lefel rhywogaethau er mwyn penu effeithiau o fesurau o dan gynllun Glastir.
- Mae holl setiau data GMEP yn cael eu dal ar rwydwaith diogel mewn ffolderi cyfrinachol, a dim ond nifer bach o staff yn y tîm gwybodeg sydd â'r hawl i'w gweld. Os bydd angen i unrhyw aelod arall o staff weld y setiau data, rhaid iddo gyflwyno cais i reolwyr data a llofnodi cytundeb trwyddedu data. Wedyn gellir caniatáu iddo weld data gofodol drwy gronfa data ofodol GMEP (SDE), gan roi'r hawl i ddarllen yn unig ar gyfer y setiau data y gofynnwyd am eu gweld. (Pennod 4)


3.4 Data llinell sylfaen newydd ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr o laswelltiroedd yng Nghymru ac ar gyfer cyflwr mawndiroedd

Canlyniadau'r flwyddyn gyntaf:

- Prynwyd dau dŵr fflwcs symudol i fesur nwyon tŷ gwydr er mwyn cael mesuriadau amser real ar gyfer carbon deuocsid, ocsid nitrus a methan. Prin yw'r synwyryddion tirwedd amser real eraill o'r fath yn y DU (dim ond un synhwyr y N₂O arall sydd yn y DU) a, hyd y gwyddom, nid oes yr un arall sy'n cynnwys y tri synhwyr yd mewn un system symudol.
- Yn ogystal â hyn, rydym yn defnyddio'r synwyryddion



Gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan GMEP i fesur effaith ymyriadau ar y fritieg berlog



Enghraift o fapio mawn noeth gan BGS drwy dynnu lluniau o'r awyr

ar y cyd â synwyryddion newydd arloesol sy'n mesur lleithder priddoedd yn y dirwedd gan fod lleithder mewn pridd yn ffactor mor bwysig o ran sbarduno fflycsau nwyon tŷ gwydr. Mae'r holl gyfarpar wedi'i brynu (sylwer bod cyfnodau arweiniol hir ar gyfer prynu'r eitemau cyfarpar arbenigol hyn) a dechreuwyd comisiynu ac integreiddio'r cyfarpar yn y systemau ôl-gerbyd symudol i'w defnyddio yn y maes yn Ebrill 2014.

- Mae metrigau newydd i fonitro mawn yn cael eu datblygu, gan gynnwys dulliau synhwyro o bell i fesur eryriad mawn a dulliau isotopig. Rydym wedi prosesu delweddau radar o arwynebedd o 4460km^2 yng ngogledd Cymru a oedd yn cynnwys gorgorsydd yn yr ucheldir ar gyfer y cyfnod rhwng 1993 a 2000. Dangoswyd ei bod yn bosibl canfod a mapio symudiadau tir bach ym mhridd mawnogydd yr ucheldir er mwyn darganfod tueddiadau tymor byr a thymor hir. Ail ddull a ddefnyddiwyd oedd dadansoddi lluniau o'r awyr i ddangos arwynebedd o 0.63km^2 o fawn noeth o arwynebedd cyfan o bridd organig o 473km^2 ; mae hyn yn cyfateb i 0.13% o'r arwynebedd cyfan o fawn a aseswyd. Drwy'r dulliau hyn, ynghyd â dull isotopig newydd sy'n defnyddio llystyfiant yn fesur procsi, y nod yw pennu dull gwrrhrychol a gwell o asesu effaith ymyriadau o dan gynllun Glastir ar gyflwr mawn.

Am nad oes data digonal ar gael na chonsensws gwyddonol yng hylch lefelau presennol yr allyriadau o nwyon tŷ gwydr o laswelltiroedd yng Nghymru, mae ansicrwydd o hyd yng hylch pa laswelltiroedd sy'n storio neu'n rhyddhau carbon ar hyn o bryd. Defnyddir y tyrau fflwcs symudol ar dir sy'n rhan o gynllun Glastir a thir nad yw'n rhan ohono i greu sylfaen dystiolaeth newydd gadarn ar gyfer y math pwysig hwn o ddefnydd tir yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y data a gaiff eu casglu drwy fonitro drwy raglen GMEP yn rhoi dealltwriaeth well o lawer i ni o ymyriadau'r cynllun a ffyrdd effeithiol o ddylunio polisi er mwyn lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac y bydd hyn o gymorth hefyd i ddatblygu dulliau a data gwell ar gyfer Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a'r Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr Coedwigaeth. Mae'r sefyllfa'n debyg o ran mawndiroedd gan nad oes methodoleg empirig wrthrychol ar gyfer asesu'r tueddiadau presennol yng nghyflwr mawndiroedd (ac felly diogelwch y carbon y maent yn ei storio). Felly bydd anawsterau yng hylch mesur effeithiau o ymyriadau o dan gynllun Glastir os na ddefnyddir technolegau newydd o'r fath. (Pennod 3)

3.5 Coetiroedd

Canlyniadau'r flwyddyn gyntaf:

- Cytunwyd ar brotocolau maes, a'u rhoi ar waith, ar gyfer cofnodi cynefinoedd a rywogaethau coetiroedd yn sgwariau arolwg GMEP. Mae hyn yn cynnwys mapio cynefinoedd coetir, y prif rywogaethau, gwybodaeth reoli, defnydd tir, plotiau llystyfiant mewn llecynnau bach a mawr yn y coetir ac ar hyd nodweddion llinol coediog, a chofnodi adar a phryfed peillio.
- Casglu data esboniadol i ddadansoddi newidiadau ym maint a chyflwr coetiroedd ac effeithiau ar newidynnau eraill sy'n dangos ymateb o ran yr amgylchedd a bioamrywiaeth.
- Mapio ymyriadau Glastir ar sail mesuriadau GMEP a Chynllun Coetiroedd Cymru.
- Defnyddio'r 3 model i ymchwilio i ragolygon o effeithiau 2 o ragnodiadau Glastir ar gyfer coetiroedd (sydd wedi'u disgrifio o dan 3(i) uchod).
- Ymchwilio i fetrigau ar gyfer cysylltedd cynefinoedd er mwyn datblygu dulliau o asesu effeithiau mesurau o dan gynllun Glastir ar gysylltedd cynefinoedd mewn coetiroedd.

Cyhoeddwyd strategaeth Llywodraeth Cymru 'Coetiroedd i Gymru' yn 2001 a'i diwygio yn 2012. Mae'n hyrwyddo dulliau o ddylunio a rheoli coetiroedd sy'n darparu amrediad eang a chytbwys o wasanaethau ecosystemau. Datblygwyd set o 23 o ddangosyddion i fesur cynydd tuag at gyrraedd yr 20 canlyniad lefel uchel sydd wedi'u disgrifio yn y strategaeth 'Coetiroedd i Gymru'. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud â chyrhaeddiad, arwynebedd coetiroedd o wahanol fath (trefol,

fferm etc.) a'r newid ynddynt, amrywiaeth cynefinoedd a'u rhywogaethau, dulliau cynaliadwy o reoli coetir, cydbwysedd carbon, iechyd coed, buddion lleol o goetiroedd, hygyrchedd, gwerth pren a rheoli dŵr. Mae'r rhain yn cwmpasu amrywiaeth o fuddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Bydd nifer o'r agweddu hyn yn cael eu disgrifio yn arolwg GMEP a fydd hefyd yn mesur effeithiau o ymyriadau Glastir gan gyfrannu at yr asesiad ehangach o'r strategaeth. Bwriedir cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru ym Mlwyddyn 2 i gysoni data'r rhaglen GMEP â data am goedwigaeth a choetiroedd o ffynonellau eraill. (Pennod 7)

3.6 Effeithiau ar dirwedd Cymru a'r amgylchedd hanesyddol

Canlyniadau'r flwyddyn gyntaf:

- Adeiladu setiau data 3D manwl ar gyfer pob un o'r 60 sgwâr 1km² sy'n cynnwys topograffi tirweddau a nodweddion tirwedd ar raddfa fach sy'n cyfyngu'r gallu i weld y dirwedd (e.e. coed mawr, terfynau fel gwrychoedd, adeiladau, coetiroedd).
- Adeiladu setiau data 3D ar fanylder o 5m ar gyfer arwynebedd 3 x 3km o gwmpas pob un o'r 60 sgwâr 1 km.
- Canfod y rhwydwaith Hawliau Tramwy cyfan ar gyfer gwahanol fathau o ddefnyddwyr (cerddwyr, beicwyr, marchogion, cerbydau bach, cerbydau mawr) ar gyfer pob un o'r 60 sgwâr.
- Coladu cofnod gweledol o bob un o'r 60 sgwâr o luniau o bwynt penodol a dynnywyd yn ystod yr arolwg maes (16 ym mhob sgwâr).
- Adeiladu golygfeydd 3D manwl ar sail yr Hawliau Tramwy ar gyfer pob un o'r 60 safle astudio 1km². Rydym hefyd wedi codio'r dulliau o gyfrifo'r golygfeydd o bob safle astudio 1km wrth edrych allan ar yr arwynebedd o 3 x 3km o gwmpas, yn ogystal â chyfraniad y safle astudio 1km i'r olygfa o'r dirwedd wrth edrych i mewn o'r arwynebedd 3 x 3km o gwmpas. Mae hyn yn ffordd o fesur pa mor weladwy yw'r dirwedd hon i'r cyhoedd.
- Canfod holl nodweddion yr amgylchedd hanesyddol ar gyfer y 60 sgwâr.
- Mae dull o asesu cyflwr nodweddion hanesyddol wedi'i gynnwys yn yr arolwg maes, ar sail nodiadau maes a ddarparwyd gan yr ymddiriedolaethau archeolegol. Bydd hyn yn rhoi set newydd, amserol a phwysig o ddata arolwg am gyflwr safleoedd hanesyddol.
- Datblygu Mynegai Ansawdd Gweledol (VQI) unigryw i fesur gwerth tirwedd pob un o'r sgwariau 1km. Mae'n cynnwys pum elfen allweddol: topograffi (pa mor arw / amrywiol yw'r tirffurf); "gofod glas" (nodweddion dŵr yn y dirwedd); "gofod gwyrdd" (amrywiaeth cynefinoedd, cymhlethdod llystyfiant); anthropogenig (elfennau adeiledig); hanesyddol / diwylliannol (gan gynnwys presenoldeb Henebion Rhestredig etc).
- Defnyddir pob un o'r uchod i ymchwilio i effaith ymyriadau Glastir ar ansawdd a hygyrchedd y dirwedd.

Mae nifer o'r mesurau sy'n rhan o'r cynllun Glastir Sylfaenol a'r cynllun Glastir Uwch yn effeithio ar ansawdd gweledol y dirwedd wledig a'r nodweddion hanesyddol o'i mewn a'i hygyrchedd i'r cyhoedd. Byddwn yn ymchwilio i'r effaith hon gan asesu'r cysylltiad rhwng ansawdd ecolegol a chanfyddiad o'r dirwedd ym Mlwyddyn 2. Bwriedir cynnal gweithgareddau ychwanegol i fesur y buddion cymdeithasol ac economaidd ehangach o Glastir Cymdeithasol ym Mlwyddyn 2 yn bennaf. Ymhlieth y gweithgareddau bydd: canfyddiad ffermwyr o'r elfen Tir Comin a'r gwerthoedd cymdeithasol ac economaidd ehangach o Grant Effeithiolrwydd Glastir a Glastir Coetir. (Pennod 6)

4. Gwaith allanol ac adroddiad y flwyddyn gyntaf

Cafwyd llawer math o waith allanol gan gysylltu â thua 20 o sefydliadau yng Nghymru, ynghyd â nifer o sefydliadau'r DU a rhai rhyngwladol. Mae hyn wedi cynnwys:

- 2 gyfarfod â rhanddeiliaid a chyfarfod rhwng y grŵp llywio a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, CNC, NFU, CADW, CLA, Confor a'r RSPB.
- Bod yn bresennol a briffo mewn cyfarfodydd sydd wedi'u trefnu gan sefydliadau eraill: RSPB i drafod dulliau mesur dichonol a gwerth y dull Gwerth Mawr i Natur; Dŵr Cymru i gyflwyno prosiect GMEP i sefydliadau gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, Afonydd Cymru, Cyswllt Amgylchedd Cymru, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, Natural England, Parciau Cenedlaethol Cymru, Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru, Ymddiriedolaethau Natur Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus a Chyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru.
- Cynhadledd Cymdeithas Biolegwyr Cymhwysol i gyflwyno'r prosiect i amrywiaeth eang o ymarferwyr gwyddoniaeth a pholisi ym maes ymchwil amaeth-amgylcheddol.
- Ysgrifennwyd erthyglau ar gyfer cylchgrawn Farming Wales yr NFU; a chyhoeddwyd papur ar y fethodeleg gyffredinol yn Aspects of Applied Biology 118, 2013.

Mae adroddiad y flwyddyn gyntaf wedi'i drefnu ar sail y pum canlyniad ar gyfer Glastir, ac mae'n canolbwytio ar y canlyniadau i ymyriadau penodol o dan gynllun Glastir sydd wedi'u rhag-weld drwy fodelu.

5. Cynlluniau ar gyfer Blwyddyn 2

Mae cynlluniau ar gyfer Blwyddyn 2 wedi'u paratoi eisoes. O dan y cynlluniau, bydd 90 o sgwariau 1km yn cael eu harchwilio rhwng Ebrill a Medi 2014, defnyddir y tyrau fflwcs i fesur nwyon tŷ gwydr, rhoddir prawf ar y dull o fesur ansawdd gweledol tirwedd, ceir mwy o waith modelu, a mwy o ymgysylltu â chyrff anllywodraethol a sefydliadau eraill i gael y defnydd gorau posibl o'r holl ddata sydd ar gael am rywogaethau a choetiroedd. Bwriedir cynnal cyfres o arolygon hefyd i bennu'r buddion economaidd-gymdeithasol ehangach a'r cyfyngiadau ar dderbyn cynllun Glastir. Y cwestiynau penodol a ofynnir yw:

